Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mr Jeremy Patterson
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

8 Tachwedd 2012

Annwyl Mr Patterson

**Ymweliad Monitro gan Estyn 1-5 Hydref 2012**

Yn dilyn canlyniad yr arolygiad o wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn Chwefror 2011, nodwyd fod angen ymweliad monitro gan Estyn ar yr awdurdod fel dilyniant i'r arolygiad hwnnw. Cynhaliwyd yr ymweliad monitro o 1-5 Hydref 2012, ac mae'r llythyr hwn yn cofnodi canlyniadau'r ymweliad hwnnw. Cyhoeddir y llythyr hwn ar wefan Estyn.

Arweiniwyd tîm o chwe arolygydd gan Mrs Betsan O'Connor AEM i adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn deillio o'r arolygiad cynharach. Aeth y tîm ati hefyd i ystyried perfformiad presennol yr awdurdod, ac arweiniodd hynny at nodi meysydd pellach i'w gwella.

Cynhaliodd y tîm drafodaethau gydag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig, uwch swyddogion a phenaethiaid a llywodraethwyr ysgolion. Buont yn craffu ar ddogfennaeth, gan gynnwys tystiolaeth ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o argymhellion yr arolygiad. Aethant ati hefyd i ystyried deilliannau o bob un o arolygiadau Estyn o ysgolion yn yr awdurdod a gynhaliwyd ers yr arolygiad gwreiddiol o wasanaethau addysg yr awdurdod lleol yn 2011. Bu'r tîm yn cysylltu hefyd â Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd y tîm eu canfyddiadau i arweinydd y cyngor, yr aelod cabinet ar gyfer addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr strategol ar gyfer sgiliau a dysgu, pennaeth y gwasanaeth ysgolion a'r cyfarwyddwr gwasanaethau plant.

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Ers yr arolygiad yn Chwefror 2011, mae cyflymder gwella yn yr awdurdod a'i ysgolion, yn ogystal â'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan y tîm arolygu, wedi bod yn gyfyngedig ac yn rhy araf.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW
Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446 • Ffacs/ Fax 02920 446448
Ebost/Email enquiries@estyn.gov.uk • http://www.estyn.gov.uk
Iechyd ar Waith / Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
INVESTORS IN PEOPLE | Gold

Fe wnaeth perfformiad mewn ysgolion uwchradd ddirywio yn 2011 o'r perfformiad adeg yr arolygiad diwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru ar feincnodau prydau ysgol am ddim. Roedd gwelliant yn y perfformiad yn 2012, ond nid yw wedi dychwelyd i'w lefel feincnod flaenorol adeg yr arolygiad diwethaf. Nid yw perfformiad ysgolion cynradd wedi gwella digon yn ystod y 2 flynedd diwethaf.

Mae'n amlwg fod aelodau etholedig allweddol (yr arweinydd, yr aelod arweiniol ar gyfer addysg, cadeirydd y pwyllgor craffu), y prif weithredwr, a'r cyfarwyddwr strategol yn ymwybodol o'r diffygion a'r heriau mewn gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc. Maent yn gwybod ac yn deall beth sydd angen ei wneud i oresgyn y rhwystrau i gynnydd. Ar hyn o bryd mae'r uwch swyddogion a'r aelodau hyn yn arwain proses raddol o newid diwylliannol er mwyn sicrhau ymagwedd dryloyw ac atebol at wella o fewn yr awdurdod. Fodd bynnag, araf yw'r cynnydd, ac mae ar gyfnod cynnar iawn.

Nid yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer hunanarfarnu'n ddigon trylwyr. Mae hyn yn golygu bod diffygion pwysig a heriau o fewn y gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn cael eu colli. Nid yw'r awdurdod yn hunanarfarnu'n effeithiol, ac ni all felly ddefnyddio hunanwybodaeth i gynllunio ar gyfer gwella. Mae'r gwendidau yn yr hunanarfarnu ar lefel gorfforaethol yn cael eu hadlewyrchu ar lefel gwasanaethau hefyd.

O ganlyniad, mae'r hunanarfarniad a ddarparwyd i'r tîm, cyn yr ymweliad monitro, yn rhy gadarnhaol a disgrifiadol. Nid yw'n nodi'r diffygion a nodwyd gan y tîm arolygu na'r diffyg cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Hefyd, roedd gormod o swyddogion allweddol na chyfranogodd at baratoi'r adroddiad hunanarfarnu, ac ni chafodd ei rannu â phenaethiaid na rhanddeiliaid eraill.

Ers yr arolygiad diwethaf, ac o dan arweinyddiaeth dwy weinyddiaeth, mae'r pwyllgor craffu wedi'i chael hi'n anodd ar lawer achlysur i gael mynediad i wybodaeth bwysig, fel y wybodaeth am berfformiad ysgolion, ac mae hynny'n rhwystro'u gallu i gyflawni eu swyddogaeth statudol. Nid yw'r gwasanaeth ysgolion wedi ymateb yn ddigon da i geisiadau gan aelodau am wybodaeth a dogfennaeth. Hefyd, nid yw swyddogion yn cyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn y ffordd fwyaf buddiol neu wrthrychol i alluogi aelodau etholedig i wneud penderfyniadau. Mae'r sefyllfa hon yn anfoddhaol.

Yn gyffredinol, nid yw'r awdurdod yn gwneud defnydd llawn o'r wybodaeth neu'r data sydd ar gael i'w alluogi i gynllunio'n strategol neu ddyrannu adnoddau'n effeithiol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae aelodau wedi tynnu sylw at bryderon ynglŷn â'r cynnydd yn erbyn y cynllun ôl-arolygiad, ac wedi gofyn a yw swyddogion wedi gwneud y defnydd gorau o adnoddau i gyflawni'r camau angenrheidiol. Fodd bynnag, nid yw swyddogion wedi ymateb i'r pryderon hyn.

**Cynnydd ar yr argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad 2011**

**Argymhelliad 1 Gwella'r her i ysgolion, yn enwedig mewn perthynas ag arfarnu arweinyddiaeth a rheolaeth, a defnyddio ei ystod lawn o bwerau i wella ysgolion yn gyflymach.**

Aethpwyd i'r afael yn rhannol â'r argymhelliad hwn.

Ers yr arolygiad diwethaf mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd o ran gwella'i lefel her i ysgolion. Daeth llawer o'r gwelliant hwn yn sgil defnyddio fframwaith herio'r

consortiwm rhanbarthol. Mae hyn wedi pennu agenda gyson i swyddogion ei dilyn ac wedi gwneud yn siŵr bod trafodaethau gydag ysgolion yn eu hymweliadau cyswllt yn yr hydref yn canolbwyntio ar safonau. Fodd bynnag, nid yw'r her a gynigir gan swyddogion cyswllt i dimau arweinyddiaeth yn ddigon cyson na thrylwyr i wneud yn siŵr bod pob ysgol yn gwella'n ddigonol. Nid yw'r prosesau mae'r awdurdod yn eu defnyddio i sicrhau ansawdd gwaith swyddogion ac i sicrhau cysondeb her i ysgolion, yn effeithiol.

Mae'r awdurdod yn defnyddio fframwaith herio'r consortiwm rhanbarthol i gategoreiddio'i ysgolion yn erbyn meini prawf a esboniwyd yn glir ar gyfer cymorth i wella ysgolion. Mae cytundeb partneriaeth yr awdurdod yn amlinellu'r cymorth y bydd gan ysgol hawl i'w gael o ganlyniad i'r categoreiddio hwn. Mae penaethiaid yn deall yn dda ym mha gategori mae eu hysgol, er eu bod yn llai clir ynglŷn â'r cymorth y byddant yn ei gael o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r categoreiddio'n rhy hael ac nid yw'n herio'r ysgol yn ddigonol i wella. Yn ogystal, nid yw'r awdurdod yn adeiladu'r diwrnodau cymorth a gytunwyd i gynlluniau gwaith ei swyddogion, felly nid yw'n gwybod a yw'n gallu darparu ar gyfer yr hawliau am gymorth i'w ysgolion.

Mae swyddogion hefyd yn cynnal rhaglen dreigl o adolygiadau ysgol sy'n cwmpasu safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth. Mae ysgolion yn deall eu hawl i'r rhain. Fodd bynnag, mae amseru'r adolygiadau hyn yn dibynnu gormod ar gylch arolygu Estyn yn hytrach na chanolbwyntio ar yr ysgolion hynny y mae angen iddynt wella fwyaf. Mae'r adroddiadau sy'n dilyn yn nodi cryfderau'n glir ac yn cynnig argymhellion ar gyfer camau pellach. Fodd bynnag, nid yw llawer ohonynt yn nodi meysydd i'w gwella'n ddigon clir i gynorthwyo ysgolion i fynd i'r afael â materion eraill.

Mae ansawdd cofnodion ysgrifenedig o ymweliadau ag ysgolion yn amrywio. Maent yn ddisgrifiadol yn aml, ac nid yw lleiafrif ohonynt yn cynnwys unrhyw gamau dilynol, a dim ond nifer fach iawn sy'n nodi graddfeydd amser ar gyfer gweithredu. Nid yw'r cofnodion hyn yn cael eu hanfon i ysgolion bob amser. Yn gyffredinol, mae arweinwyr systemau o'r consortiwm rhanbarthol wedi darparu cymorth effeithiol i wella ysgolion uwchradd ym mandiau 4 a 5, a hefyd i nifer fach o ysgolion cynradd. Fodd bynnag, nid yw'r cymorth hwn wedi cynnwys digon o ffocws bob amser ar herio ansawdd yr uwch arweinyddiaeth, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.

Ers yr arolygiad diwethaf, nodwyd bod angen gweithredu mesurau arbennig mewn dwy ysgol, a nodwyd bod angen gwelliant sylweddol ar un ysgol. Yn ystod y cylch arolygu hwn yn ei gyfanrwydd, mae gan yr awdurdod dair ysgol y mae angen eu gwella'n sylweddol, ac mae angen gweithredu mesurau arbennig mewn tair ysgol arall. Mae hyn yn fwy nag unrhyw awdurdod arall yng Nghymru. Fodd bynnag, dim ond defnydd cyfyngedig mae'r awdurdod wedi'i wneud o'i bwerau llawn er mwyn gwella ysgolion yn ddigon cyflym. Pan ddefnyddiwyd y pwerau hyn, mae'r ysgolion eisoes wedi'u rhoi mewn categori sy'n peri pryder gan Estyn. Mae ysgolion eraill wedi cael rhybudd anffurfiol gan yr awdurdod lleol, ond nid oes tystiolaeth o effaith y rhain eto.

**Argymhelliad 2 Gwella cysondeb a chywirdeb asesiadau athrawon yng nghyfnodau allweddol 1 a 2.**

Aethpwyd i'r afael yn rhannol â'r argymhelliad hwn.

Mae Grŵp Gorchwyl Asesu Powys wedi rhoi arweiniad a hyfforddiant defnyddiol i ysgolion ar asesu, a oedd yn cynnwys rhannu arfer dda o fewn yr awdurdod lleol. Rhoddwyd gormod o bwyslais, fodd bynnag, ar fodloni gofynion statudol yn hytrach na gwella gallu pob athro i asesu gwaith disgyblion yn gywir.

Mae Swyddogion Effeithiolrwydd Ysgolion wedi monitro prosesau asesu mewn sampl o ysgolion, a rhoddodd eu hadroddiadau ddadansoddiadau defnyddiol, gan dynnu sylw at feysydd i'w gwella. Mae mwyafrif yr ysgolion a gafodd eu monitro wedi gwella'u prosesau asesu, er nad yw asesiadau athrawon mewn ysgolion eraill yn gyson gywir.

Fodd bynnag, ni wnaeth swyddogion gyflawni hanner targed yr awdurdod ei hun ar gyfer nifer yr ysgolion i'w monitro. O ganlyniad, nid oes gan yr awdurdod ddarlun ddigon cyflawn o effaith ei ymyriadau i wybod a yw cysondeb a chywirdeb yr asesu wedi gwella'n gyffredinol.

**Argymhelliad 3 Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol (ADY) pob ysgol yn cael eu cynllunio a'u monitro'n strategol, a gwneud y defnydd gorau o arbenigedd y staff.**

Aethpwyd i'r afael yn rhannol â'r argymhelliad hwn.

Araf fu'r cynnydd cyffredinol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth glir ar gyfer datblygu gwasanaethau i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gyda ffocws ar ddarpariaeth leol o ansawdd uchel a chymorth aml-asiantaethol wedi'i gydlynu'n dda.

Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio strategol i sicrhau gwelliant wedi'i sefydlu'n dda. Mae cynnydd wedi bod yn rhy araf o ran datblygu cynllun strategol. Er bod y cynllun hwn yn nodi'r rhan fwyaf o'r meysydd allweddol yn briodol, mae'n anghyflawn, ac nid yw'n cysylltu'n ddigon agos â chynlluniau busnes a chynlluniau gweithredu cyfredol. Mae disgwyliadau wedi bod yn isel ar gyfer cyflymder cynnydd o ran bodloni'r argymhellion a datblygu gwasanaethau ADY, ac mae'r graddfeydd amser wedi bod yn rhy hir. Nid yw uwch reolwyr wedi mynd ati'n effeithiol i fonitro a herio'r gwaith a wnaed. Maent wedi methu hefyd â chynllunio'n briodol i wneud y defnydd gorau o adnoddau sydd ar gael.

Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â rhai elfennau o'r strategaeth, fel datblygu canolfannau arbenigol a sefydlu Gwasanaeth Anabledd Integredig a Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd a Chymorth Ymddygiad. Mae staff ADY wedi cynnal ystod o archwiliadau priodol, sydd wedi'u helpu nodi meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid ydynt wedi dadansoddi'r wybodaeth hon yn llawn na'i defnyddio'n ddigon da i lywio'r cynllunio strategol. Cynnydd araf mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran casglu a dadansoddi data ar ddeilliannau disgyblion. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn gallu mesur effaith ymyriadau ar gynnydd disgyblion na chynnig her ddigon trylwyr i ysgolion.

**Argymhelliad 4 Gwella rheoli perfformiad, gan gynnwys dadansoddi effaith gwasanaethau ac adnoddau ar bob un o'r dysgwyr, ac wedyn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio a blaenoriaethu cyflwyno gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.**

Nid aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Dim ond ers cyfnod cyfyngedig y mae proses rheoli perfformiad corfforaethol newydd yr awdurdod wedi bod ar waith. Hyd yma, nid yw hyn wedi dylanwadu ar welliant nac atebolrwydd o fewn gwasanaethau'r awdurdod lleol i blant a phobl ifanc. Yn ogystal, fframwaith rheoli perfformiad gwan mae'r gwasanaeth ysgolion wedi'i baratoi, ac nid yw'n dwyn swyddogion i gyfrif nac yn monitro perfformiad yn effeithiol.

Nid yw'r cynllunio ar lefel strategol yn canolbwyntio'n ddigon clir ar ddeilliannau. Nid yw'r awdurdod wedi rhoi trefniadau effeithiol ar waith i'w arwain wrth gynllunio gwelliant. Mae diffyg cerrig milltir defnyddiol a mesurau deilliannau mesuradwy ar bob lefel o'r cynllunio yn golygu ei bod yn anodd rheoli a monitro perfformiad. Mae llawer o'r prosesau i reoli perfformiad yn anffurfiol ac yn aneffeithiol. Nid yw prosesau'n llwyddiannus o ran dwyn y bobl iawn i gyfrif am welliant neu gynnydd. Yn gyffredinol, nid yw'r awdurdod wedi dwyn swyddogion unigol i gyfrif am eu perfformiad. Yn ogystal, yn y gwasanaeth ysgolion, nid yw dyraniad amser y swyddogion yn cael ei gynllunio er mwyn cysoni anghenion y gwaith â'r adnoddau sydd ar gael. Mae rheoli perfformiad ac adnoddau annigonol yn golygu nad yw meysydd pwysig o waith yr awdurdod yn cael eu cyflawni.

**Argymhelliad 5 Cymryd camau effeithiol i leihau'r diffyg yng nghyllidebau ysgolion.**

Aethpwyd i'r afael yn rhannol â'r argymhelliad hwn.

Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn araf yn gweithredu'r fframwaith llywodraethu diwygiedig sydd ei angen os yw i wella rheolaeth cyllid dirprwyedig i'w ysgolion. O ganlyniad, deunaw mis ar ôl yr arolygiad diwethaf gan Estyn, mae ei arweiniad a'i weithdrefnau gwreiddiol ar waith gan yr awdurdod lleol o hyd. Mae'r awdurdod lleol wedi ymgynghori ynghylch rheoliadau ariannol newydd ac arweiniad. Mae'r diwygiadau drafft hyn bellach yn cyfleu'n gliriach ystod cyfrifoldebau'r rheini sy'n gysylltiedig â chyllido ysgolion, y prosesau ar gyfer monitro gwariant, y cyfyngiadau i awdurdod dirprwyedig ar gyfer gwariant a'r rheolaethau a'r sancsiynau y mae'r awdurdod lleol yn gallu'u cymhwyso pan fydd y gwario'n mynd y tu hwnt i derfynau rhagddiffiniedig. Fodd bynnag, mae dogfennau allweddol ar ffurf ddrafft o hyd, a dim ond mewn ychydig o ysgolion y maent wedi'u rhoi ar brawf.

Yng Ngorffennaf 2012, cytunodd y cabinet ar feini prawf llym ar gyfer rheoli'r diffygion cyllideb mawr. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys cyfleuster benthyca gydag amodau wedi'u diffinio'n bendant iawn, a'r gofyniad i ysgolion gynhyrchu cynlluniau adfer priodol â chostau llawn ynghlwm o fewn graddfeydd amser tynn a chlir y mae'n rhaid eu cymeradwyo ar lefel cyfarwyddwr strategol.

Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi darparu cymorth i helpu ysgolion wella'r ffordd maent yn rheoli'u cyllideb, gyda ffocws arbennig ar y pedair ysgol sydd wedi gorwario fwyaf. O ganlyniad, mae diffygion cyllidebau'n lleihau'n araf. Yn ogystal, mae pedair ysgol sydd â hanes o wargedau mawr wedi lleihau'r rhain yn sylweddol, ac mae ysgol arall wedi symud o fod â diffyg i fod â gwarged. Fodd bynnag, ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2011-12, roedd gan ddeuddeg o ysgolion gyllidebau annhrwyddedig o hyd.

Mae pob un o'r pedair ysgol uwchradd sydd â chyllidebau diffyg uchel wedi cynhyrchu cynlluniau adfer drafft.  Ond er bod y cynlluniau hyn yn cynnwys gostyngiadau o ran staffio, nid yw'r un ohonynt yn cynnwys unrhyw ddadansoddiad o risg nac asesiad o effaith hyn ar y cwricwlwm, ansawdd addysg neu safonau disgyblion.  Mae'n parhau'n aneglur felly a fydd y gostyngiadau arfaethedig o ran cyllideb yn rhwystro neu'n cefnogi'r gwelliannau angenrheidiol mewn safonau disgyblion, ym mhob un o'r ysgolion hyn sy'n gorwario ac yn tanberfformio.

**Argymhelliad 6  Cynnal momentwm y rhaglen moderneiddio addysg.**

Aethpwyd i'r afael yn rhannol â'r argymhelliad hwn.

Yn y flwyddyn ddiwethaf mae'r awdurdod lleol wedi cau 14 o ysgolion cynradd gan gael gwared ar 392 o leoedd.  Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi cael gwared ar 180 o leoedd dros ben mewn un ysgol uwchradd.  Mae cynlluniau cytûn ar waith i leihau lleoedd dros ben mewn ysgolion uwchradd ymhellach drwy gael gwared ar ystafelloedd dosbarth dros dro sy'n afraid, ac ail-ddynodi rhai ardaloedd o'r safleoedd ysgol ar gyfer defnydd y gymuned.  Fodd bynnag, mae'r newid hwn yn digwydd yn rhy araf wrth i niferoedd disgyblion barhau i ostwng.

Er bod yr awdurdod lleol wedi cynnal ei ffocws ar ei raglen moderneiddio addysg, araf fu'r cynnydd tuag at gyflawni'i nodau uchelgeisiol.  Mae'r awdurdod lleol wedi canolbwyntio'n glir ei ymgyrch i foderneiddio addysg ar nodau allweddol gwella safonau, gwella ansawdd adeiladau addysg a mwy o gydraddoldeb o ran gwariant ar ddisgyblion.

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi llawer o'r ffactorau sydd wedi atal byrddau ardal[1] rhag symud ymlaen â diwygiadau lleol yn gyflymach.  Er bod yr awdurdod lleol yn gwybod beth sydd raid iddo wneud, mae gwelliannau i'r cylch gorchwyl ar gyfer byrddau ardal yn parhau ar ffurf ddrafft.

Trwy gydweithredu effeithiol, mae darparwyr wedi cynhyrchu prosbectws ôl-16 defnyddiol iawn ar gyfer Powys gyfan, sydd wedi helpu mwy o fyfyrwyr i ddewis cyrsiau o ystod ehangach o safleoedd.  Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y cyrsiau dyblyg ac arbediad sylweddol hefyd.  Fodd bynnag, nid oes cytundeb yn bodoli o hyd rhwng yr awdurdod lleol, ei ysgolion a Choleg Powys ynglŷn â sefydlu model cyflwyno wedi'i gytuno'n gyffredin ar gyfer darpariaeth ôl-16.  Mae partneriaid wedi cytuno'r ffordd gyffredinol ymlaen, ac wedi sefydlu methodoleg gomisiynu ganolog i gynllunio ac ariannu cyrsiau.

**Camau nesaf**

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, a'r cynnydd araf yn erbyn argymhellion, bydd yr awdurdod yn symud o gategori monitro gan Estyn, a'i roi yn y categori awdurdod y mae angen gwelliant sylweddol arno.  Bydd tîm o AEM yn dychwelyd ymhen dim llai na 12 mis i farnu cynnydd.  Nid yw cwmpas yr ymweliad hwnnw wedi'i gadarnhau eto.

Bydd gan yr awdurdod 50 diwrnod yn awr i baratoi cynllun gweithredu.  Mae angen i'r cynllun gweithredu hwn amlinellu'r camau y bydd yr awdurdod yn eu cymryd i roi'r gwelliannau angenrheidiol ar waith.  Mae angen i'r cynllun nodi'n glir pwy fydd â

---

[1] Byrddau lleol a sefydlwyd i arwain moderneiddio addysg mewn ardal leol

chyfrifoldeb am y tasgau, cynnwys cerrig milltir, nodi adnoddau perthnasol a sut bydd tystiolaeth o lwyddiant yn cael ei dangos.  Yn ychwanegol at yr argymhellion a nodir isod, dylai'r awdurdod ymateb i'r holl faterion eraill a nodwyd yn y llythyr hwn.

Bydd eich Arolygwyr Cyswllt Estyn, Betsan O'Connor AEM a Mererid Stone AEM, yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol a'r cynllun gweithredu drwy eu rôl cyswllt AEM gyda'r awdurdod.

**Argymhellion**

Er mwyn sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol mewn ffordd amserol, dylai'r awdurdod:

- ddatblygu gweithdrefnau hunanarfarnu effeithiol;
- gwneud yn siŵr bod prosesau rheoli perfformiad yn gadarn a'u bod yn dwyn swyddogion i gyfrif;
- sicrhau bod gwaith y Gwasanaeth Ysgolion yn cael ei gynllunio'n effeithiol, bod trefniadau trylwyr ar waith i sicrhau ei ansawdd a'i fod yn cael ei arfarnu'n gadarn er mwyn gwella'i effaith ar ddysgwyr;
- sicrhau bod cynllunio strategol yn canolbwyntio'n gyson ar gyflawni gwell deilliannau i ddysgwyr, a'i fod yn ymatebol i arweiniad Llywodraeth Cymru ar gynlluniau unigol; a
- gweithredu mewn ffordd amserol i gyflawni ei raglen moderneiddio addysg.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru er gwybodaeth.

Yn gywir

**Clive Phillips**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol